**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

5 Gorffennaf 2023

Annwyl Elin

Bil Deddf Hawliau y DU ("y Bil") a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Yn dilyn ein gohebiaeth flaenorol ar 8 Mawrth [ynghlwm]. Ar y pryd, nid oedd y Bil wedi mynd heibio i'r darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin nac ymhellach na chael ei gyflwyno ar 22 Mehefin 2022. Gwnaethom nodi y byddem, pe bai'r Bil yn mynd ymlaen i ail ddarlleniad, yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd.

Ar 27 Mehefin, rhoddodd Alex Chalk CB, yn rhinwedd ei swydd yn Arglwydd Ganghellor, ddiweddariad ar y Bil i'r Pwyllgor Cyfiawnder. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd na fydd Llywodraeth y DU, ar ôl ystyried ei rhaglen ddeddfwriaethol yn ofalus, yn bwrw ymlaen â'r Bil. Mae swyddogion wedi cael cadarnhad o'r sefyllfa gan eu swyddogion cyfatebol. Nid oes unrhyw reswm felly dros osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn yr un modd â chyda gohebiaeth flaenorol, rydym yn anfon copi o’r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

Yn gywir

**Jane Hutt AS/MS**
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution